

# Wild flower identification leaflet

*An aid to identifying wild flowers in Wales*

Wild meadows are grasslands full of wild flowers, with abundant insect life that provide a fundamental life-support system for birds and other wild animals. From boggy pastures, to riverside hay meadows, seaside marshes, flower-filled dunes and cliff-top grasslands, wild meadows are a vital part of the Welsh heritage of nature, landscape and traditional farming. The majority of the surviving examples in the Welsh countryside are widely scattered, tiny fields separated by large areas of intensively managed wildflower-poor grasslands or cultivated land. Many are attached to smallholdings or residential properties, and are not part of a commercial farm.

Wild meadows are mainly farmland habitats – shaped by many centuries of grazing by cattle, ponies or sheep. Grazing, or grazing and hay-making, are vital to maintain the diverse flora of wild meadows and to prevent the growth of tussocky vegetation, scrub and trees.

# Taflen adnabod blodau gwylt

*Cymorth i adnabod blodau gwylt yng Nghymru*

Glaswelltiroedd sy'n llawn blodau gwylt ac sy'n cynnwys toreth o bryfed yw dolydd byw. Maent yn cynnig system cynnal bywyd hanfodol i adar ac anifeiliaid gwylt eraill. O borfeydd corsio i ddolydd gwair ar lan afonydd, corsydd ar lan y môr, twyni sy'n llawn blodau a glaswelltiroedd ar glogwyni, mae dolydd byw'n rhan hanfodol o dreftadaeth Cymru o safbwynt natur, tirwedd a dulliau amaethu traddodiadol. Mae'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau o ddolydd byw sy'n dal i fodoli yng nghefn gwlad Cymru i'w cael mewn caeau bach sydd wedi'u gwasgaru ymhell wrth ei gilydd ac wedi'u gwahanu gan ardaloedd mawr o laswelltiroedd sy'n brin o blodau gwylt a gaiff eu rheoli'n ddwys, neu dir wedi'i amaethu. Mae llawer o'r dolydd byw sy'n weddill ynghlwm wrth dyddynnod neu eiddo preswyl, ac nid ydynt yn rhan o fferm fasnachol.

Mae dolydd byw yn gynefinoedd a geir ar dir fferm yn bennaf – maent wedi'u siapio gan ganrifoedd o bori gan wartheg, merlod neu ddefaid. Mae pori, neu bori a chynaeafu gwair, yn hanfodol i gynnal fflora amrywiol dolydd byw ac atal llystyfiant twmpathog, prysgoed a choed rhag tyfu.



**Further reading** – for more in-depth detail and a greater range of plant illustrations see the book *The Wild Flower Key* by Francis Rose.

**Botanical recording** – please visit your local botanical recording centre at [www.biodiversitywales.org.uk/](http://www.biodiversitywales.org.uk/)

**Darllen pellach** – am wybodaeth fanylach ac ystod ehangach o luniau o blanhigion, gweler y llyfr *The Wild Flower Key* gan Francis Rose.

**Cofnodi botanegol** – ewch i'ch canolfan cofnodi botanegol lleol ar [www.biodiversitywales.org.uk/](http://www.biodiversitywales.org.uk/)



**Early-purple Orchid**  
**Tegeirian coch y gwanwyn**

These flowers are crimson or bright purple. The leaves are dark and shiny with purple blotches.

Mae'r blodau hyn yn rhuddoch neu'n borffor llachar. Mae'r dail yn dywyll ac yn sgleiniog â blotiau porffor.

Text copyright © Francis Rose, 1981, 2006. Illustrations copyright © Frederick Warne & Co., 1981, 2006  
© Hawffraint y testun Francis Rose, 1981, 2006. © Hawffraint y lluniau Frederick Warne & Co., 1981, 2006

**Flora locale, Postern Hill Lodge, Marlborough, Wiltshire SN8 4ND**  
**Tel: 01672 515723 Email: [info@floralocale.org](mailto:info@floralocale.org) [www.floralocale.org](http://www.floralocale.org)**

*Flora locale* seeks to restore wild plants and wild-plant communities to lands and landscapes across the UK, and by this means raise the biodiversity, environmental quality and enjoyment of town and countryside.

*Flora locale* is a UK registered company 3539595; a charity registered in England and Wales (1071212) and in Scotland (SC039001). This Pocket Guide was funded by the Countryside Council for Wales and the Esmée Fairbairn Foundation. © *Flora locale* 2009. This Pocket Guide may be reproduced freely but not published or used for financial gain without prior permission from *Flora locale*.

**Flora locale, Postern Hill Lodge, Marlborough, Wiltshire SN8 4ND**  
**Ffôn: 01672 515723 E-bost: [info@floralocale.org](mailto:info@floralocale.org) [www.floralocale.org](http://www.floralocale.org)**

Nod *Flora locale* yw ailgyflwyno planhigion gwylt a chymunedau planhigion gwylt i diroedd a thirweddau ar draws y DU, ac wrth wneud hynny gwella bioamrywiaeth ac ansawdd amgylcheddol trefi a chefn gwlad a gwella mwynhad pobl ohonynt.

Mae *Flora locale* yn gwmni a gofrestrwyd yn y DU (rhif 3539595), ac yn elusen a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (rhif 1071212) ac yn yr Alban (rhif SC039001). Cyllidwyd y Canllaw hwn gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Sefydliad Esmée Fairbairn. © *Flora locale* 2009. Cewch atgynhyrchu'r Canllaw hwn fel y mynnoch, ond ni chewch ei gyhoeddi na'i ddefnyddio er elw ariannol heb ganiatâd ymlaen llaw gan *Flora locale*.

**Rough Hawkbit**  
**Peradyl garw**

These flowers are also bright yellow. The leaves are hairy and grow in a rosette.

Mae'r blodau hyn o liw melyn llachar hefyd. Mae'r dail yn flewog ac maent yn tyfu mewn rhosglwm.



**Common Cat's-ear**  
**Melynydd**

Bright yellow flowers that look like a bit like dandelions, but the stem does not contain a 'milky' liquid when cut as dandelions do.

Blodau melyn llachar sy'n edrych ychydig fel dant y llew, ond nid yw'r coesyn yn cynnwys hylif 'llaethog' fel y mae coesyn dant y llew ar ôl ei dorri.



**Heath Spotted-orchid**  
**Tegeirian brych y rhos**

The flowers are similar in colour to Common Spotted, but the purple marks are more loop-like and they are different in shape.

Mae lliw'r blodau'n debyg i'r tegeirian brych, ond mae'r marciau porffor yn debycach i ddolenni ac mae eu siâp yn wahanol.



**Common Spotted-orchid**  
**Tegeirian brych**

Orchids are perennial plants – each plant grows for many years. They rely on a fungus in the soil to grow. Pale pink flowers with purple streaks/spots. The leaves are grey-green also with purple spots.

Mae tegeirianau'n blanhigion parhaol – mae pob planhigion yn tyfu am nifer o flynyddoedd. Maent yn dibynnu ar ffung yn y pridd i dyfu. Mae ganddo blodau pinc golau â llinellau/sbotiau porffor. Mae'r dail yn llwydyrdd a cheir sbotiau porffor arnynt hwy hefyd.



**Lesser Butterfly-orchid**  
**Tegeirian llydanwyrdd bach**

A smaller, narrower yellow flower with a broader lip.

Blodyn melyn sy'n llai o faint ac yn gulach â phetal isaf mwy llydan.



**Greater Butterfly-orchid**  
**Tegeirian llydanwyrdd**

A yellow orchid flower, that is lightly scented.

Blodyn tegeirian melyn sydd ag arogl ysgafn.



**Oxeye Daisy**  
**Llygad-Ilo mawr**

A robust plant, 20–70cm tall with large daisy-like flowers that are 2.5–5cm in diameter.

Planhigion cadarn, sy'n tyfu i uchder o 20–70cm. Mae'r blodau'n debyg i llygad y dydd â diamedr o 2.5–5cm.



**Sneezewort**  
**Ystrewlys**

A bigger plant than Yarrow, with less flowers that are larger.

Planhigion mwy na'r milddail, sydd â blodau mwy o faint ond llai ohonynt.



**Common or Black Knapweed**  
**Y bengaled**

A robust, deep pink, brushlike flower head – often known as 'hard heads'. They grow taller than many other meadow flowers.

Pen blodyn cadarn lliw pinc tywyll sy'n debyg i frwsh – dyna pam y'i gelwir yn 'bengaled'. Maent yn tyfu'n dalach na nifer o blodau eraill y ddôl.



**Devil's-bit Scabious**  
**Tamaid y cythraul**

Blue-purple rounded flowers, with leaves often blotchy. The food plant for Marsh Fritillary caterpillars. Flowers late in the summer and likes damp ground.

Blodau crwn glas-borffor, ac mae'r dail yn gochlyd yn aml. Mae lindys britheg y gors yn bwydo ar y planhigion hwn. Mae'n blodeuo'n hwyr yn yr haf ac mae'n hoffi tir llaith.



**Yarrow**  
**Milddail**

A strongly scented plant with runners. Many small pink-white flowers, leaves are delicate and fern-like in shape.

Planhigion ag arogl cryf sydd ag ymledyddion. Mae ganddo lawer o blodau bach gwyn-binc ac mae'r dail yn eiddil ac yn debyg i siâp rhedyn.



**Marsh Thistle**  
**Ysgallen y gors**

This thistle has shiny, dark green leaves and purple flowers in clusters.

Mae gan yr ysgallen hon ddail gwyrdd tywyll, sgleiniog a chlystyrau o blodau porffor.



These native flowers are commonly found in wild meadows across Wales  
Mae'r blodau brodorol hyn yn gyffredin mewn dolydd byw ar draws Cymru

Creeping Buttercup  
Blodyn-y-menyn ymlusgol

Spreads using 'runners', and the flower stalks are grooved. The flower is said to tell if you like butter – hold the flower under your chin to see the yellow reflection.

Mae'n ymledu gan ddefnyddio 'ymledyddion', a cheir rhigolau ar goesyn y blodyn. Dywedir bod y blodyn yn gallu dangos a ydych yn hoffi menyndim ond i chi ei ddal dan eich gèn i weld yr adlewyrchiad melyn.



*Ranunculus repens*

Meadow Buttercup  
Blodyn ymenyn

This buttercup has deeply toothed leaves, but no runners, flower stalks are smooth not grooved.

Mae dail y blodyn ymenyn hwn yn ddanheddod iawn, ond nid oes ganddo unrhyw ymledyddion. Mae coesynddau'r blodyn yn llyfn ac ni cheir rhigolau arnynt.



*Ranunculus acris*

Common Mouse-ear  
Clust-y-llygoden gulddail

Tiny oval pointed leaves that give the name, also small white flowers.

Ei ddail pitw hirgrwn a phigfain sy'n rhoi ei enw i'r planhigyn hwn, ac mae ganddo flodau bach gwyn hefyd.



*Cerastium fontanum*

Red Clover  
Meillionen goch

A hairy plant, that has a white crescent shape on its leaves. There are also commercial varieties of this plant.

Planhigyn blewog sydd â siâp chwarter lleuad lliw gwyn ar ei ddail. Ceir amrywiadau masnachol o'r planhigyn hwn hefyd.



*Trifolium pratense*

Meadowsweet  
Erwain

A tall plant found in damp meadows, the creamy flowers are strongly scented on sunny days.

Planhigyn tal sy'n tyfu mewn dolydd llaith. Mae gan y blodau lliw hufen arogl cryf ar ddiwrnodau heulog.



*Filipendula ulmaria*

Common Sorrel  
Suran y cŵn

Leaves are arrow-shaped, and can turn red. They taste especially bitter.

Mae'r dail mewn siâp saeth ac maent yn gallu troi'n goch. Mae blas chwerw iawn arnynt.



*Rumex acetosa*

Betony  
Cribau San Ffraid

Betony was in the past used for medicinal purposes and as a tea substitute. A pretty, small purple flower.

Yn y gorffennol defnyddiwyd cribau San Ffraid at ddibenion meddyginiaethol ac fel dewis arall yn lle te. Mae ganddynt flodyn porffor bach prydfwrth.



*Betonica officinalis*

Selfheal  
Y feddyges las

Purple flowers from creeping runners, with oval downy leaves.

Mae gan y planhigyn ymlusgol hwn flodau porffor a dail hirgrwn gwlanog.



*Prunella vulgaris*

Cookooflower / Lady's smock  
Blodyn llefrith

Flowers rose-pink to white, early in the year. The food plant of orange-tip butterflies.

Mae'n blodeuo'n gynnar yn y flwyddyn â blodau rhowliw neu wyn. Mae'r planhigyn hwn yn fwyd i Foneddiges y Wig.



*Cardamine pratensis*

Ragged-Robin  
Carpog y gors

As the name suggests – the flowers are ragged. It grows in damp meadows.

Fel y mae'r enw'n awgrymu – mae'r blodau'n garpiog. Mae'n tyfu mewn dolydd llaith.



*Lychnis flos-cuculi*

Meadow Vetchling  
Ytbycen y ddôl

Pretty yellow flowers that turn into black claw-like seed pods.

Blodau melyn prydfwrth sy'n troi'n godennau had du sy'n edrych fel crafangau.



*Lathyrus pratensis*

Common Bird's-foot-trefoil  
Pysen-y-ceirw

This family of plants – clovers, vetch and trefoils – help fix nitrogen from the air into the soil.

Mae'r teulu hwn o blanhigion – meillion a ffabys – yn helpu i dynnu nitrogen o'r aer a'i roi yn y pridd.



*Lotus corniculatus*

Primrose  
Briallen

Yellow flowers, a single flowerhead on each stalk, the leaves are wrinkled and in a rosette.

Mae ganddo flodau melyn. Ceir un pen blodyn ar bob coesyn ac mae'r dail wedi'u crychu ac ar ffurf rhowlglwm.



*Primula vulgaris*

Cowslip  
Briallen Fair

These look a little like primroses but have more flowers that are in clusters on one stem, and are apricot-yellow in colour.

Mae'r rhain yn edrych rhywbeth yn debyg i friallu, ond mae mwy o flodau arnynt. Mae'r blodau mewn clystyrau ar un coesyn, ac maent yn felyn fel lliw bricyll.



*Primula veris*

Bugle  
Glesyn y coed

Oval, shiny leaves with a spike of whorls of blue flowers.

Dail hirgrwn, sgleiniog o dan bigyn â sidelli o flodau glas.



*Ajuga reptans*

Ribwort Plantain  
Llyriad yr ais

Long, spear-shaped leaves with obvious veins. Said to have health benefits. Known as 'fire-weed' in some areas due to its moisture content in the hay crop.

Dail hir, siâp gwaywffon â gwythiennau amlwg. Mae'n debyg bod y planhigyn yn gallu bod yn dda i'r iechyd. Fe'i gelwir yn 'chwyn tân' mewn rhai ardaloedd oherwydd y lleithder sydd ynddo yn y cnwd gwair.



*Plantago lanceolata*

Lesser Stitchwort  
Serenllys bach

A very delicate plant with small white flowers.

Planhigyn eiddil iawn â blodau bach gwyn.




*Stellaria graminea*

Greater Stitchwort  
Serenllys mawr

Similar to Lesser Stichwort, but with larger flowers and leaves.

Tebyg i'r serenllys bach, ond â blodau a dail mwy o faint.



*Stellaria holostea*

Tormentil  
Tresgl y moch

A delicate, low-growing plant with yellow flowers and shiny deep green leaves.

Planhigyn eiddil sy'n tyfu'n isel sydd â blodau melyn a dail gwyrdd tywyll sgleiniog.



*Potentilla erecta*

Silverweed  
Dail arian

Silverweed likes to grow where the ground has been disturbed, such as gateways or feeding sites.

Mae dail arian yn hoffi tyfu ar dir sydd wedi'i sathru neu'i fathru, megis o amgylch gatiâu neu fannau bwydo.



*Potentilla anserina*

Germander Speedwell  
Llygad doli

A delicate blue flower with a white dot in the centre, giving it the country name of 'cat's eye'. It is low-growing and can form small patches.

Blodyn glas eiddil â dot gwyn yn y canol, sy'n rhoi'r enw 'llygad doli' iddo. Mae'n tyfu'n isel a gall ffurfio clytiau bach.



*Veronica chamaedrys*

Yellow / Hay Rattle  
Cribell felen

This plant is a semi-parasitic and uses grasses to help itself to grow, as it reduces the grass around it, this gives space for more flowers to grow. Shake the seed pods to hear them rattle.

Mae'r planhigyn hwn yn lled-barasitig ac mae'n defnyddio glaswelltau i'w helpu i dyfu. Wrth iddo leihau'r glaswellt o'i gwmpas, mae hyn yn rhoi lle i fwy o flodau dyfu. Gallwch ysgwyd y codennau had i'w clywed yn clecian.



*Rhinanthus minor*

Lady's Bedstraw  
Briwydd felen

Small, golden-yellow flowers in clusters. Leaves appear to be in whorls along four angled stems.

Clystyrau o flodau bach melyn-euraidd. Ymddengys bod y dail mewn sidelli ar hyd pedwar coesyn sydd ar ongl.



*Galium verum*

Whorled Caraway  
Carwy droellennog

White flowers that appear 'frothy' when looking across damp meadows, leaves are bristle-like whorled up the stem.

Blodau gwyn sy'n debyg i 'ewyn' wrth edrych ar hyd dolydd llaith. Mae eu dail yn debyg i wrych ac maent mewn sidelli ar y coesyn.



*Carum verticillatum*